# COMPACT TENANTIAID CARTREFI'R FRO

Mae Compact Tenantiaid Cartrefi'r Fro yn gytundeb rhwng Cartrefi'r Fro, ei denantiaid/lesddeiliaid a'i ddeiliaid contractau ac mae'n ymwneud â sut mae eu lleisiau a'u barn yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi a sut y cymerir camau i helpu i gyflawni canlyniadau gwasanaeth gwell ar sail eu hanghenion a fynegwyd.

## MAE'R COMPACT YN CYNNWYS:

1. Pam mae Cartrefi'r Fro yn ystyried bod cyfranogiad yn bwysig
2. Yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael i Denantiaid, Lesddeiliaid a Deiliaid Contractau Cartrefi'r Fro fynegi eu barn
3. Pa gymorth/hyfforddiant a chyllid sydd ar gael i denantiaid, lesddeiliaid a deiliaid contractau i sefydlu a rheoli grwpiau tenantiaid a phreswylwyr i helpu i gynyddu cyfranogiad
4. Sut i gymryd rhan a lle i gael mwy o wybodaeth
5. Cymeradwyaeth ffurfiol gan y Pennaeth Tai, Cadeirydd y Gweithgor ac Aelod Cabinet y Cyngor â Chyfrifoldeb Tai

## • PAM MAE CARTREFI'R FRO YN YSTYRIED BOD CYFRANOGIAD YN BWYSIG?

Mae cyfranogiad tenantiaid neu ymgysylltu â thenantiaid yn broses sy'n cynnwys dod â thenantiaid, lesddeiliaid, deiliaid contractau a landlordiaid ynghyd i:

- rannu syniadau
- datblygu gwell gwasanaethau
- gwneud penderfyniadau gwell ar wella amodau tai gan gynnwys:
  - sut mae arian yn cael ei wario,
  - sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu a
  - sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud.

Mae'r broses hon yn cynnwys rhoi'r defnyddwyr gwasanaeth wrth ei gwraidd a nod y Compact hwn yw dangos sut gall defnyddwyr gwasanaeth gymryd rhan a mynegi eu barn.

Mae Strategaeth Tenantiaid a Lesddeiliaid newydd Cartrefi'r Fro yn amlinellu eu gweledigaeth, sef "creu diwylliant lle rydym yn datblygu ac yn hwyluso'r cyfleoedd cymaint â phosibl i denantiaid a lesddeiliaid gyfrannu at greu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar denantiaid a lesddeiliaid".

*Mae hyn yn golygu ein bod wedi ymrwymo ar bob lefel, o uwch swyddogion i swyddogion iau, i wrando ar eich meddyliau a'ch syniadau am sut y gallwn gynnig gwell gwasanaethau i denantiaid, lesddeiliaid a deiliaid contractau.*


Er mwyn helpu i wireddu'r weledigaeth hon, byddwn yn canolbwyntio ar 4 maes craidd, sef

1. Sicrhau bod Tenantiaid, Lesddeiliaid a Deiliaid Contractau yn cael eu CLYWED a'u GWERTHFAWROGI
2. Sicrhau bod Tenantiaid, Lesddeiliaid a Deiliaid Contractau yn gallu DYLANWADU a gwneud newid
3. Creu cyfleoedd CYFRANOGI i Denantiaid, Lesddeiliaid a Deiliaid Contractau gymryd rhan yn hawdd heb unrhyw rwystrau neu amodau ynghlwm
4. BUDDSODDI mewn adnoddau ariannol fel y gall Tenantiaid, Lesddeiliaid a Deiliaid Contractau gael gafael ar gyllid, hyfforddiant, cymorth a gwobrau i helpu i gymryd rhan

## • Yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael i Denantiaid, Lesddeiliaid a Deiliaid Contractau Cartref'r Fro ddweud eu dweud

Ar hyn o bryd mae amrywiaeth o ffyrdd y gall tenantiaid gyfranogi a bod yn rhan o'n strwythurau cyfranogiad ffurfiol ac anffurfiol.Mae'r diagram isod yn dangos yr amrywiaeth o ffyrdd y gellir cynnwys tenantiaid a phreswylwyr yn ein strwythurau.

*Strwythur Cyfranogiad Tenantiaid Cartrefi'r Fro 2022*



## Cyfranogiad Anffurfiol:

Fel rhan o'n ffyrdd anffurfiol o gymryd rhan a mynegi eich barn, gall tenantiaid, lesddeiliaid a deiliaid contractau:

- Gymryd rhan wrth lenwi holiaduron neu arolygon barn ar-lein a phapur am amrywiaeth o faterion tai cyfoes
- Cymryd rhan mewn Teithiau Cerdded Ystadau a digwyddiadau mewn ardaloedd lleol i rannu pryderon am faterion lleol a chynnig atebion gyda staff cymdogaeth
- Cymryd rhan mewn sgyrsiau un-i-un a rhoi adborth, trwy gydol y denantiaeth/ contract neu'r cytundeb lesddaliad gyda staff tai

## Cyfranogiad Ffurfiol:

Fel rhan o'n strwythurau ffurfiol, gall tenantiaid, lesddeiliaid a deiliaid contractau gymryd rhan mewn ystod o grwpiau ffurfiol i helpu i ddylanwadu ar wasanaethau a gynigiwn. Gall hyn gynnwys cymryd rhan yn y canlynol:

### Gweithgor Tenantiaid (GT)

Mae Gweithgor y Tenantiaid yn cynnwys tua 15 o denantiaid. Mae'r 15 tenant hyn yn cael eu recriwtio o'r grwpiau tenantiaid a phreswylwyr lleol. Er bod y Grwpiau Tenantiaid a Phreswylwyr yn cynnwys tenantiaid y Cyngor a thenantiaid preifat ac yn gallu cynnwys perchnogion tai hefyd, dim ond tenantiaid a deiliaid contractau Cartrefi'r Fro all gael eu hethol fel cynrychiolwyr i Weithgor y Tenantiaid. Y prif reswm am hyn yw bod gwaith y gweithgor yn cynnwys ystyried materion strategol sy'n effeithio ar denantiaid a deiliaid contractau Cartrefi Bro yn unig.

### Pwyllgor Craffu Cartrefi a Diogelwch

Mae hwn yn cynnwys 4 tenant ac uwch aelodau o staff tai a chynghorwyr sy'n adolygu perfformiad ac yn ystyried cynigion a syniadau newydd, cyn mynd i Gabinet y Cyngor i'w cymeradwyo. Mae'r 4 tenant ac uwch aelodau o staff tai yn cael eu recriwtio o Weithgor y Tenantiaid. Y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Diogelwch yw'r lefel uchaf o ran cyfranogiad yn ein strwythurau ffurfiol. Bydd tenantiaid ar y grŵp hwn yn gweithio ochr yn ochr â'r Pennaeth Tai a'r Cynghorwyr a swyddogion lleol.

### Fforwm Ansawdd Dylunio (FfAD)

Mae'r Fforwm Ansawdd Dylunio yn cynnwys 6 thenant sy'n goruchwylio prosiectau gwaith mawr, gan gynnwys gwaith SATC 2 newydd. Mae'r grŵp yn chwarae ei ran i sicrhau bod ansawdd y gwaith o safon dda. Mae hefyd yn rhan o'r broses tendro contractau, yn ogystal â bod yn rhan o archwilio cartrefi gwag er enghraifft. Mae'r 6 thenant sy'n cael eu recriwtio ar y FfAD yn cael eu dewis o'r GT.

## Aseswr Ansawdd Gwasanaethau

Bydd yr Aseswyr Ansawdd Gwasanaethau yn gweithredu fel ffrindiau beirniadol, gan helpu i graffu ar y gwasanaethau a ddarparwn, gan edrych ar Pam, Ble, a Sut y cânt eu darparu. Mae'r grŵp yn rhoi cyngor ar yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, ac yn gwneud argymhellion am newidiadau sydd eu hangen, gan alluogi Cartrefi'r Fro i ddarparu gwell gwasanaethau sy'n werth am arian ac sy'n cael eu darparu mewn da bryd i denantiaid.

Gall aseswyr Ansawdd Gwasanaethau hefyd weithredu fel **Siopwyr Dirgel** - ac o bryd i'w gilydd byddant yn cwblhau ymarferion "Siopa Dirgel" am wasanaethau o fewn yr Adran Dai. Mae hyn yn rhoi persbectif i ni o du'r tenantiaid ar sut mae ein defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau. Bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu ein safonau gwasanaeth.

## Grŵp Tenantiaid a Phreswylwyr (GTPh)

Mae'r grwpiau tenantiaid a phreswylwyr yn grwpiau lleol sy'n cael eu sefydlu i fynd i'r afael â phryderon ardal leol - nid oes angen i chi fod yn denant i Cartrefi'r Fro i fod yn rhan o grŵp tenantiaid a phreswylwyr, gall preswylwyr preifat hefyd fod yn rhan o'r grwpiau. Mae angen cyfansoddiad ar bob grŵp tenantiaid a phreswylwyr, yn ogystal â Chadeirydd, Is-gadeirydd, Ysgrifennydd a Thrysorydd. Mae gennym dros 60 o denantiaid yn cymryd rhan yn rheolaidd wrth drafod materion lleol ar ystadau, gan gynnwys cyflwr ystadau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, cyfleusterau, parcio a'r newidiadau ymarferol y gallwn eu gwneud i fynd i'r afael â'r materion hyn.

## Fforwm Tai Gwarchod (FfTG)

Mae'r Fforwm Tai Gwarchod yn cynnwys preswylwyr o gynlluniau tai gwarchod Cartrefi'r Fro sy'n dod at ei gilydd i drafod materion sy'n berthnasol i breswylwyr yn y cynlluniau Tai Gwarchod. Cyfarfodydd wyneb yn wyneb yw'r rhain ar hyn o bryd ond yn y dyfodol efallai bydd preswylwyr yn gallu ymuno â chyfarfodydd o bell o gysur eu cartrefi/cynlluniau gwarchod.

## Fforwm Lesddeiliaid (FfL)

Mae'r Fforwm Lesddeiliaid yn fforwm newydd a fydd yn cael ei sefydlu ar gyfer lesddeiliaid Cartrefi'r Fro. Gall lesddeiliaid ddod ynghyd i drafod materion sy'n effeithio arnynt.

## Fforwm Digidol (FfD)

Mae'r Fforwm Digidol hefyd yn fforwm newydd sy'n cael ei sefydlu ar gyfer tenantiaid sy'n dymuno mynegi eu barn ond na allant neu nad ydynt am fynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Gall y fforwm digidol gwrdd yn ddigidol trwy Teams neu efallai y bydd aelodau yn dymuno ateb arolygon ar-lein.

## • Pa gymorth, hyfforddiant a chyllid sydd ar gael i Lesddeiliaid, Deiliaid Contractau a Thenantiaid

### Ar gyfer sefydlu, cynnal a rheoli grwpiau tenantiaid a phreswylwyr i helpu i gynyddu cyfranogiad?

Mae tair prif ffordd y gall Cartrefi'r Fro gefnogi tenantiaid i gymryd rhan trwy'r grwpiau tenantiaid a phreswylwyr, sef:

1. CYLLID ✔
2. CYMORTH HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD ✔
3. GWOBRAU AR GYFER CYMRYD RHAN A RHOI ADBORTH ✔

### 1 CYLLID

- Mae gan unrhyw grŵp tenantiaid a phreswylwyr hawl i dderbyn hyd at £2,000 o gyllid bob blwyddyn i gefnogi gwaith y grwpiau tenantiaid a phreswylwyr.
- Bydd angen cyfansoddiad ar y grwpiau tenantiaid a phreswylwyr a bydd angen iddynt ethol Cadeirydd, Is-gadeirydd, Trysorydd ac Ysgrifennydd.
- Unwaith bydd cyfansoddiad gan y grŵp, gellir rhoi cymorth hefyd i wneud cais am gyllid allanol ehangach.

### 2 CYMORTH HYFFORDDIANT A DATBLYGIAD

Mae unrhyw un sy'n ymwneud â'n gwaith Cyfranogiad Tenantiaid sy'n dymuno cymryd rhan yn unrhyw un o'r strwythurau cyfranogi yn gallu elwa o gyllid ar gyfer hyfforddiant, treuliau a thrafnidiaeth, lle bo angen.

Mae Tîm Cyfranogiad Tenantiaid Cartrefi'r Fro yn gallu gweithio gyda chi i'ch helpu i gymryd rhan a rhoi cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad penodol i chi ar sail eich anghenion unigol i fynegi eich barn a dod yn denant rhagweithiol hyderus.

Mae tîm Cartrefi'r Fro hefyd yn cynnig pecyn hyfforddiant cynhwysfawr i unrhyw un sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r grwpiau a restrir uchod neu unrhyw un sydd am fod yn rhan o'r grwpiau ffurfiol.

Mae'r hyfforddiant hwn wedi'i restru yng nghynllun hyfforddi tenantiaid, lesddeiliaid a deiliad contractau sydd i'w gweld yn y **ddolen** hon, os ydych yn edrych ar y ddogfen hon ar-lein.

Neu ewch i
https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/Housing/Vale-Homes/Vale-Homes.aspx

## 3 GWOBRAU AR GYFER CYMRYD RHAN A RHOI ADBORTH

Gall unrhyw denant, deiliad contract neu lesddeiliad sy'n cynnig ei amser rhydd i gymryd rhan yn unrhyw un o'n strwythurau cyfranogi ffurfiol fod â hawl i gredydau amser, gan ddibynnu ar y math o weithgaredd. Gallai un awr o'ch amser arwain at wobr y gallwch ei hawlio mewn lleoliad lleol yn y Fro sy'n cymryd rhan yn y cynllun.

Mae hyn yn arwydd o ddiolchgarwch gan Cartrefi'r Fro am eich cyfranogiad.
Gellir hawlio hyd at 15 awr y mis ar gyfer gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid.

I gael mwy o wybodaeth, ewch i:
www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/living/Housing/Vale-Homes/Vale-Homes.aspx

neu: www.valueinthevale.com

## • SUT I GYMRYD RHAN A LLE I GAEL MWY O WYBODAETH

- I gymryd rhan neu i gael mwy o wybodaeth, e-bostiwch: get-involved@valeofglamorgan.gov.uk
- neu cysylltwch ag aelod o'r Tîm Ymgysylltu a Buddsoddi Tenantiaid yn uniongyrchol ar:

Ffôn: 07702338840

## • Cymeradwyaeth Ffurfiol

### Gan Gadeirydd Gweithgor y Tenantiaid, yr Aelod Cabinet dros Dai a'r Pennaeth Tai

Gobeithiwn fod y compact hwn yn nodi'n glir ein strwythurau cyfranogiad, y cymorth a'r cynllun gwobrwyo sydd ar waith i wireddu ein gweledigaeth *o Greu diwylliant yn Cartrefi'r Fro lle rydym yn datblygu ac yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i denantiaid, deiliaid contractau a lesddeiliaid gyfrannu at greu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar denantiaid a lesddeiliaid.*

Edrychwn ymlaen, fel Cynghorwyr ac aelodau staff, at weithio gyda chi i gyflawni hyn dros y tair blynedd nesaf.

### Ar ran Cyngor Bro Morgannwg

Llofnod: ..............................
*Cadeirydd Gweithgor y Tenantiaid.*

Llofnod: ..............................
*Y Cynghorydd, yr Aelod Cabinet dros Dai.*

Llofnod: ..............................
*Pennaeth Tai.*